**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/08638/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

10 Ionawr 2020

Annwyl Janet,

Diolch yn fawr am eich llythyr ar 22 Tachwedd ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-05-930 ar gyfer Meddygfa Glanyfferi.

Cyfrifoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw darparu gwasanaethau meddygon teulu digonol yng Nghlanyfferi. Rwy'n ymwybodol bod Meddygfa Mariners yng Nglanyfferi wedi penderfynu cyflwyno cais i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gau'r lleoliad ar Ffordd Caerfyrddin a chyfuno eu gwasanaethau ym Meddygfa Minafon yng Nghydweli. Mae hwn yn fater contractiol rhwng y Bwrdd Iechyd a'r practis meddyg teulu ac ni allaf ymyrryd yn y mater.

Rwy’n sylweddoli bod hwn yn gyfnod ansefydlog i'r cleifion. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ymgysylltu â chleifion a rhanddeiliaid fel rhan o broses o ymgynghori ar gais y practis. Bydd panel adolygu'r practis yn cael ei alw ynghyd i ystyried y cais, a hynny yn unol â phrotocol y cytunwyd arno â'r Cyngor Iechyd Cymuned. Wrth ystyried y cais, bydd y panel adolygu yn edrych ar y rhesymau dros y cais, defnydd cleifion ar hyn o bryd, yr effaith ar gleifion, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, a safbwyntiau cleifion.

Rydym yn cydnabod bod y system meddygon teulu o dan lawer o bwysau ac rydym yn gweithio i sicrhau bod pob claf yn gallu cael mynediad at y gofal cywir ar yr adeg gywir. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddais y safonau newydd ar Fynediad at Wasanaethau Meddygol Cyffredinol, a disgwyliwn i bractisau meddygon teulu fodloni’r safonau hyn erbyn mis Mawrth 2021. Er mwyn helpu practisau i’w bodloni, bydd £3.76 miliwn yn cael ei fuddsoddi eleni mewn gwasanaethau teleffoni digidol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru a Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru i wneud y proffesiwn yn fwy atyniadol, gan wella mynediad at wasanaethau a sicrhau cynaliadwyedd practisau meddygon teulu ar yr un pryd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Cymru, ynghyd â rhannau eraill o'r DU, wedi bod angen ymdrin â materion sy’n ymwneud â recriwtio meddygon teulu. I fynd i'r afael â hyn, lansiais ymgyrch genedlaethol a rhyngwladol yn 2016, *Hyfforddi Gweithio Byw,* er mwyn hyrwyddo manteision hyfforddi a gweithio fel meddyg teulu yng Nghymru. Fel rhan o'r ymgyrch, fe wnaethom gyflwyno dau gynllun cymelliadol i annog a denu rhagor o bobl i hyfforddi fel meddygon teulu yng Nghymru.

Ers i'r ymgyrch gael ei lansio yn 2016, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y gyfradd lenwi ar gyfer hyfforddiant meddygon teulu. Eleni, mae cyfanswm o 186 o lefydd wedi'u llenwi, sy'n uwch na'r targed newydd y cytunwyd arno, sef 160 o swyddi. Dyma'r nifer uchaf o bobl i gael eu recriwtio i hyfforddiant arbenigol meddygon teulu yn ddiweddar. Ym mis Mehefin, cyhoeddom fod y cwota targed ar gyfer hyfforddiant meddygon teulu wedi cynyddu o 136 i 160, gan ddechrau'r hydref hwn.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn dod o hyd i atebion ymarferol a diogel i gael gweithlu cynaliadwy, sy'n fwy diogel i gleifion ac sy'n gwella ansawdd y gwasanaeth y gall y GIG ei ddarparu.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services